# Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch: Sefydliadau

Sefydliad Cymunedol Cymru

Nod Cronfa Cymorth mewn Angen Penarlâg a'r Cylch ar gyfer sefydliadau yw helpu grwpiau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed sy'n byw ym mhlwyf hynafol Penarlâg.

Defnyddiwyd cyllid o Gronfa Cymorth mewn Angen Penarlâg a'r Cylch i:

- prynu offer a darparu gweithgareddau ar gyfer grwpiau/elusennau cymunedol ym Mhenarlâg sy'n gweithio gyda phobl mewn angen sy'n agored i niwed.
- prynu eitemau sy'n hanfodol i leddfu dioddefaint tlodi bwyd a thanwydd (e.e. parseli bwyd, blancedi, poteli dŵr poeth, dillad cynnes, atgyweiriadau boeleri).
- darparu clybiau cinio, cydweithfeydd bwyd, gweithgareddau sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol, lleihau ynysu a lliniaru tlodi.
- talu costau craidd ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed yn ardaloedd penodol.

## Grantiau sydd ar gael

Gall sefydliadau wneud cais am grantiau hyd at £2,000 y flwyddyn (cyfnod treiglol o 12 mis). Gall sefydliadau sy'n gwneud cais am brosiect cymunedol wneud cais am gyllid sawl blwyddyn - gweler isod.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i grwpiau a sefydliadau sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac sydd heb dderbyn cefnogaeth gan y Gronfa hon o'r blaen.

## Pwy all wneud cais?

Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw ym mhlwyf hynafol Penarlâg h.y. y prif fuddiolwyr fod o'r plwyf.

Mae plwyf hynafol Penarlâg yn cynnwys y wardiau modern canlynol: Aston, Gogledd Ddwyrain Brychdyn, Bwcle Pentrobin, Ewlo, Penarlâg, Mancot, Queensferry, Cyffordd yr Wyddgrug Saltney, Saltney Stonebridge, Sealand, Dwyrain Shotton, Shotton Higher, Gorllewin Shotton.

# Sut i wneud cais?

Mae dwy ffurflen gais y gellir eu cyflwyno ar-lein - *gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y llwybr cywir.*

- Sefydliadau sy'n gwneud cais ar ran unigolyn.
- Sefydliadau/Grwpiau sy'n gwneud cais am brosiect cymunedol er budd grŵp o unigolion.

Gellir gweld y ddwy ffurflen gais ar ein gwefan.

Nodwch:

- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, ac mae'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi a'u dychwelyd.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario grantiau yn llawn o fewn blwyddyn ar ôl derbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

# Cyllid Aml-flwyddyn

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau gynllunio ar gyfer y dyfodol a gall cael cyllid diogel roi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Cymorth mewn Angen Penarlâg a'r Cylch bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cymorth prosiect 1 flwyddyn.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch yr adran ychwanegol o'r ffurflen gais sy'n nodi sut rydych chi'n bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid rydych yn ceisio amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau nawr wneud cais am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at 3 blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf, a bod y swm ymgeisio yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £2,000.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd, a rhwystro problemau parhaus rhag codi megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Hoffem i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth, a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Hoffem weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.